## Cylch Gorchwyl Pwyllgor:
## GRŴP FFIOEDD AC YSGOLORIAETHAU

Yn adrodd i: Gweithrediaeth y Brifysgol

Yn cwrdd: pedair gwaith y flwyddyn

*Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Gorffennaf 2018; diwygiwyd ddiwethaf: Gorffennaf 2018; ac i'w adolygu nesaf: Gorffennaf 2020*

| Aelodau: | Yn gweinyddu: |
|---|---|
| • Is-Ganghellor (Cadeirydd)<br>• Pennaeth Cynllunio<br>• Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol<br>• Cofrestrydd Academaidd<br>• Cyfarwyddwr Marchnata a Recriwtio Myfyrwyr<br>• Pennaeth Derbyniadau Israddedig<br>• Pennaeth Derbyniadau Ôl-raddedig<br>• Cyfarwyddwr y Swyddfa Ryngwladol<br>• Swyddog Dyfarniadau Academaidd<br>• Rheolwr Ffioedd ac Arian Parod Myfyrwyr, y Swyddfa Gyllid<br><br>10 o aelodau.<br><br>Cworwm: 5 aelod. | • Uwch-Gynghorydd Myfyrwyr, Cymorth Myfyrwyr<br>• Pennaeth Datblygu Strategol, y Swyddfa Gynllunio<br>• Pennaeth yr Ysgol i Raddedigion<br>• Rheolwr Ymgysylltu ag Alumni a Rhoddion Unigol, DARO<br>• Swyddog Datblygu Undeb y Myfyrwyr<br><br>Fel y gwêl y Cadeirydd yn dda, gwahoddir swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd, fel y bo'n briodol. |

Cylch gwaith:

Mae'r Grŵp Ffioedd ac Ysgoloriaethau yn trafod y materion manwl sy'n ymwneud â ffioedd ac ysgoloriaethau mewn amryw o farchnadoedd addysg uwch (israddedig ac ôl-raddedig, cartref, yr UE a rhyngwladol), ac yn ystyried gosod lefelau ffioedd priodol ochr yn ochr â datblygu pecynnau addas o ysgoloriaethau yn unol ag amcanion strategol a darpariaeth y sector.

---

Cylch gorchwyl:

1. Ystyried y canlynol a'u hargymell i gael eu cymeradwyo gan Weithrediaeth y Brifysgol, neu gan bwyllgor llywodraethu drwy Weithrediaeth y Brifysgol:

    a. Lefelau priodol ar gyfer ffioedd dysgu – israddedig ac ôl-raddedig, cartref, yr UE a rhyngwladol, gan gymryd i ystyriaeth ofynion ariannol a gofynion y rheoliadau, gan gynnwys y Cynllun Ffioedd a Mynediad, CMA.
    b. Dyrannu cronfeydd at ysgoloriaethau a bwrsariaethau, gan gymryd i ystyriaeth ofynion ariannol a gofynion y rheoliadau, gan gynnwys y Cynllun Ffioedd a Mynediad, CMA.
    c. Ffioedd Dysgu ar gyfer Datblygu Proffesiynol Parhaus, Dysgu Gydol Oes, Cymraeg i Oedolion, rhan-amser, Dysgu o Hirbell a 'chyrsiau caeedig' e.e. DProf.
    d. Ffioedd dysgu ansafonol, e.e. blwyddyn allan i israddedigion a chynlluniau rhyng-gwrs.
    e. Gostyngiadau i fyfyrwyr ar gynlluniau cyfnewid.

2. Ystyried y canlynol, a bod â'r awdurdod i'w hadolygu a'u cymeradwyo ar ran Gweithrediaeth y Brifysgol:

a. Ceisiadau unigol am anwybyddu ffioedd ac apelau ynghylch ffioedd.
b. Materion gweithredol o ran casglu ffioedd a dyrannu cyllid.

3. Derbyn adroddiadau er gwybodaeth a chynghori Gweithrediaeth y Brifysgol, neu bwyllgor llywodraethu drwy Weithrediaeth y Brifysgol fel y bo'n briodol, ar y canlynol:

   a. Niferoedd myfyrwyr a rhagfynegiadau drafft o niferoedd myfyrwyr.
   b. Dyrannu ysgoloriaethau a bwrsariaethau a'r niferoedd sy'n eu derbyn, gan gynnwys yr effaith ar recriwtio, trosi, tariffau, cadw myfyrwyr a chyllid.
   c. Rhoi adolygiad yng ngoleuni cyfarwyddiadau gan y Cyngor Cyllido ynglŷn a fframwaith y Llywodraeth ar gyfer ffioedd, a datblygiadau yn y sector.
   d. Datblygiadau yn benodol i'r sector, e.e. amrywiadau yn y marchnadoedd rhyngwladol.

---

<u>Gweithredu</u>

Bydd Gweithrediaeth y Brifysgol yn derbyn adroddiadau cyson fel y bo'n briodol ar weithgareddau'r Pwyllgor drwy'r Cadeirydd, a fydd yn aelod o Weithrediaeth y Brifysgol.